

EICH CYFLE I FOD YN RHAN O GENHEDLAETH OES NEWYDD (GENERATION NEW ERA)

Annwyl Riant,

Rydym yn ysgrifennu atoch i roi gwybod bod gennych gyfle i **fod yn rhan o Genhedlaeth Oes Newydd (Generation New Era)** – astudiaeth newydd yn y DU o fabanod a anwyd yn 2026, a'u teuluoedd. Os ydych chi'n byw gyda rhiant arall eich plentyn, efallai eu bod nhw hefyd wedi derbyn y llythyr hwn.

Mae'r astudiaeth yn casglu gwybodaeth wyddonol bwysig am iechyd plant a sut maen nhw'n tyfu i fyny yn ein byd newidiol. Bydd hyn yn helpu i wella cymorth i deuluoedd ledled y DU. Mae'n cynnwys cyfweiliadau â mamau a thadau amdany'n nhw eu hunain a'u baban. Fel diolch, bydd pob rhiant sy'n cymryd rhan yn derbyn e-daleb.

Mae Cenhedlaeth Oes Newydd yn cael ei arwain gan Goleg Prifysgol Llundain (UCL) a Phrifysgol Abertawe. Cynhelir y cyfweiliadau gan dri sefydliad ymchwil annibynnol – Ipsos, NatCen a Verian. Telir amdano gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol.

Beth sy'n digwydd nesaf?

- **Does dim rhaid i chi benderfynu ar unrhyw beth nawr**
- Yn ystod y misoedd nesaf, byddwn yn anfon mwy o fanylion atoch ac yn eich gwahodd i ymuno â'r astudiaeth.
- Yna bydd cyfweilydd hyfforddedig yn galw yn eich cyfeiriad i ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych, ac yn gofyn a hoffech gymryd rhan.
- Eich dewis chi yw cymryd rhan ai peidio a gallwch dynnu'n ôl ar unrhyw adeg.
- **Os byddai'n well gennych beidio â derbyn unrhyw wybodaeth bellach am yr astudiaeth, neu os nad ydych am fod yn rhan o'r astudiaeth, rhowch wybod i ni ac ni fyddwn yn cysylltu â chi rhagor.** Gallwch ein ffonio ar Radffôn 0800 151 0610 neu e-bostio gnestudy@ipsos.com. Cofiwch gynnwys eich cyfeirnodsydd ar frig y llythyr hwn.

Diolch ymlaen llaw am eich help. Gobeithiwn yn fawr y byddwch yn penderfynu bod yn rhan o'r astudiaeth bwysig hon. Darllenwch y Cwestiynau ac Atebion ar gefn y llythyr hwn am ragor o wybodaeth.

Yn gywir,



Yr Athro Alissa Goodman CBE
Cyfarwyddwr yr Astudiaeth, y DU
Coleg Prifysgol Llundain



Yr Athro Lucy Griffiths
Cyfarwyddwr yr Astudiaeth, Cymru
Prifysgol Abertawe

Beth mae'n ei olygu?

Byddwn yn gofyn i famau a thadau gymryd rhan mewn cyfweiliad. Bydd y cyfweiliad yn cymryd tua 60 munud i un rhiant, ac i'r rhiant arall tua 30 munud. **Chi sydd i benderfynu a ydych am gymryd rhan.**

Hoffem siarad â chi eto bob ychydig flynyddoedd i ddarganfod sut mae eich plentyn yn dod ymlaen wrth iddo/iddi dyfu i fyny – y tro nesaf yn ôl pob tebyg fydd pan fydd yn 3 oed. **Chi fydd yn penderfynu bob amser** a ydych am gymryd rhan.

Sut cefais fy newis ar gyfer yr astudiaeth hon?

Mae'r teuluoedd sydd wedi cael eu gwahodd i gymryd rhan yn adlewyrchu amrywiaeth pob rhanbarth a'r DU gyfan.

Dewiswyd eich teulu **ar hap o gofnodion genedigaethau** a gedwir gan GIG Lloegr ar gyfer Cymru a Lloegr a roddodd eich enw, cyfeiriad a gwybodaeth ychwanegol amdanoch chi a'ch baban.

Mae gennym gymeradwyaeth arbennig gan Grŵp Ymgynghorol Data annibynnol GIG Lloegr i dderbyn gwybodaeth o gofnodion genedigaethau fel y gallwn gysylltu â chi. Mae defnyddio gwybodaeth gyfrinachol cleifion heb ganiatâd wedi derbyn cefnogaeth gan yr Awdurdod Ymchwil Iechyd yn dilyn cyngor gan y Grŵp Ymgynghorol Cyfrinachedd. Fe wnaethant adolygu'r astudiaeth yn ofalus i sicrhau bod eich data a'ch preifatrwydd yn cael eu diogelu.

Beth os ydw i'n byw ar wahân i riant arall fy maban?

Er mwyn ein helpu i ddeall bywyd pob plentyn yn llawn, rydym am gynnwys mamau neu dadau sy'n byw ar wahân i riant arall eu plentyn. Os ydych chi'n byw ar wahân i riant arall eich plentyn, byddwn yn gofyn i chi am gysylltuâ nhw yn ystod eich cyfweiliad. Os yw'n well gennych i ni beidio â chysylltu â rhiant arall eich plentyn, neu os oes gennych unrhyw bryderon, gallwch roi gwybod i'ch cyfwelydd.

Sut mae fy ngwybodaeth yn cael ei chadw'n ddiogel?

Bydd eich atebion yn cael eu cadw'n gyfrinachol a'u defnyddio ar gyfer ymchwil yn unig.

Caniateir i UCL ddefnyddio eich data personol oherwydd bod yr astudiaeth yn cael ei chynnal ar gyfer tasg er budd y cyhoedd o dan y GDPR, y ddeddf sy'n amddiffyn eich gwybodaeth personol. Os dewiswch beidio â chymryd rhan, ni fydd eich enw a'ch cyfeiriad chi na'ch babi o gofnodion geni yn cael eu cadw na'u defnyddio at unrhyw ddiben arall. Byddwn yn defnyddio gwybodaeth ddemograffig gyfyngedig arall o gofnodion geni i'n helpu i ddeall pwy sy'n cymryd rhan a phwy nad yw'n cymryd rhan er mwyn sicrhau bod y canfyddiadau'n adlewyrchu ystod eang o deuluoedd y DU. Yna byddwn hefyd yn dileu'r wybodaeth hon yn ddiogel.

Am fanylion llawn, gweler ein **Hysbysiad Preifatrwydd yn gnestudy.info/privacy**.

24-030189-01/M-L02GW

